# TEULUOEDD YN GYNTAF GWYNEDD

Mae teuluoedd weithiau angen help ychwanegol er mwyn gallu ffynnu, bod yn hapus, iach ac i lwyddo.



Gallwn eich helpu i adnabod be sy'n mynd yn dda i chi fel teulu a beth ydi'r pethau 'da chi angen yr help mwyaf gyda.

## SUT MAE'N GWEITHIO?

Gallwch ofyn i rywun eich cyfeirio neu gyfeirio'ch hun am help

Bydd rhywun yn cysylltu efo chi i drafod beth sy'n eich poeni a beth sy'n bwysig i chi

Byddwn yn trafod ffyrdd posib o'ch helpu

Gall yr help yma ddod gan Wasanaeth o fewn y cynllun

Gyda'ch caniatâd, byddwn yn eich cyfeirio at yr help cywir, mae'n bosib y byddwch yn cael cynnig help gan Gydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)

Gall y cydlynydd ddod a pawb sy'n eich helpu at ei gilydd a chynnal **cyfarfod teulu**

Fe nawn nhw roi cynllun teulu at ei gilydd efo chi a pawb sy'n helpu

Fe nawn nhw helpu chi a pawb arall i ddilyn y cynllun yma a helpu'r teulu i wneud newidiadau a chynnydd

Mae'ch llais **CHI** yn bwysig i ni ar hyd y daith

## TEULUOEDD YN GYNTAF GWYNEDD

**Tim o Amgylch y Teulu –** os oes na lawer o bethau yn eich pryderu

**Gweithiwr Cefnogi Teulu –** i helpu efo materion megis ymddygiad, cwsg a phethau pob dydd a all godi

**Y Bont –** help i gryfhau perthnasau teuluol trwy gynnal sesiynau cymodi, cynhadledd grŵp teulu, cwnsela a help i ddelio a cholled

**Tîm Teuluoedd yn Gyntaf Derwen** - i roi cyngor a help i deuluoedd sydd â phlentyn ag anghenion ychwanegol neu anabledd dysgu. Does dim rhaid cael diagnosis

**Tîm Datblygiad Cynnar** - help os ydych yn poeni am ddatblygiad eich plentyn.

**Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifanc** - help cynnar i ddelio efo ymddygiad gwrth gymdeithasol.

**Gallwch gysylltu efo ni am sgwrs drwy ffonio Tîm Derbyn Cyfeiriadau Plant a Theuluoedd Gwynedd 01758 704455 neu e bostiwch ni - teuluoeddyngyntaf@gwynedd.llyw.cymru**

Teuluoedd yn Gyntaf Families First

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL